SWYDDFA'R POST

Annwyl Gwsmer

# Ymgynghoriad cyhoeddus lleol – Dweud eich dweud

**Swyddfa Bost Y Rhyl**

**32-34 Y Stryd Fawr, Y Rhyl, LL18 1ET**

Rydym yn bwriadu symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i leoliad newydd – Marchnad Fach Y Rhyl, 11 Stryd Bodfor, Y Rhyl, LL18 1AS ac, yn amodol ar ymgynghoriad, bydd yn cael ei rhedeg fel un o'n canghennau lleol eu natur.

**Pam ydym yn cynnig y newid hwn?**

Ein blaenoriaeth yw diogelu ein gwasanaethau yn y gymuned leol yn yr hirdymor. Ar hyn o bryd mae'r gangen hon yn cael ei rhedeg dan gytundeb byrdymor, ac rydym wedi ceisio cael ateb mwy cynaliadwy. Felly, rydym yn bwriadu symud y gangen hon i leoliad arall. Mae'n dda gennym ddweud wrthych fod asiant newydd wedi cael ei benodi i redeg Swyddfa Bost Y Rhyl o'r lleoliad newydd uchod, yn amodol ar ymgynghoriad.

**Hoffem gael eich cymorth**

Rydym nawr yn dechrau cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac mae eich adborth yn bwysig i ni oherwydd bydd yn ein helpu i wneud ein penderfyniad. Mae rhagor o fanylion am y gwasanaethau a fwriedir a hygyrchedd y safle yn y crynodeb o wybodaeth am y gangen yn nes ymlaen yn y ddogfen ymgynghorol hon.

**Am beth yn hollol rydym yn ymgynghori?**

Hoffem gael eich sylwadau ynghylch y canlynol:

- **Pa mor hawdd yw cyrraedd y lleoliad newydd arfaethedig?**
- **A yw'n hawdd i chi fynd i mewn i'r adeilad newydd ac i symud o gwmpas y tu mewn?**
- **Ydych chi'n credu y gallai unrhyw faterion cymunedol eraill ddylanwadu ar neu gael eu dylanwadu gan y bwriad i symud y Swyddfa Bost?**
- **Pe bai'r symud yn digwydd, a oes unrhyw beth y gallem ei wneud fel ei bod yn haws i gwsmeriaid?**

Mae'r newid a argymhellir i reolaeth y gangen yn benderfyniad i Swyddfa'r Post Cyf ac felly nid ydym yn chwilio am ymateb i'r agwedd hon ar y newid.

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol | **1 Mawrth 2023** |
| Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dod i ben | **12 Ebrill 2023** |
| Mis y newid arfaethedig | **Ebrill/Mai 2023** |

Gallwch rannu eich sylwadau am y newid arfaethedig trwy ein holiadur hawdd a hwylus ar-lein ar postofficeviews.co.uk. Wrth fynd i mewn i'r wefan, gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgynghoriad ar gyfer y gangen hon naill ai drwy enw'r gangen, y cod post, neu god unigryw'r gangen **664614**

**Sut i rannu'ch barn:**

**Hyb Ymgynghori (postofficeviews.co.uk)**

comments@postoffice.co.uk

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments – D.S. Hwn yw'r cyfeiriad post llawn. Mae eitemau a anfonir drwy Freepost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd pen y daith, ac felly dylech ganiatáu digon o amser.

**Eisiau rhoi eich barn i ni yn y fan a'r lle? Sganiwch yma.**

**Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

**Mae'n dda gwybod**

- Byddai cwsmeriaid yn cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn dau fan gwasanaeth modern â chynllun agored a sgrin isel sydd yn rhan o gownter y siop
- Trwy gydweithio â'r postfeistr, byddem yn addasu patrwm y siop, ynghyd â'r celfi gosod a'r ffitiadau er mwyn gwneud lle i fannau gwasanaeth y Swyddfa Bost
- Byddai'r Swyddfa Bost yn cynnig dewis tebyg o gynhyrchion a gwasanaethau yn ystod oriau agor estynedig, fel gall cwsmeriaid ddefnyddio eu cangen pan mae'n gyfleus. Mae canran uchel o gwsmeriaid yn fodlon â changhennau lleol eu natur, ac mae llawer o gwsmeriaid yn ymweld y tu allan i'r oriau agor traddodiadol
- Byddai'r holl staff a gyflogid i weithio yn y gangen newydd arfaethedig wedi derbyn hyfforddiant o'r safon uchaf mewn perthynas â chynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal a materion gweithredol a materion sy'n ymwneud â gwasanaeth
- Nawr bydd posteri a thaflenni yn cael eu harddangos yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am yr argymhelliad a gofyn iddynt am eu sylwadau
- Bydd unrhyw wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei hystyried wrth i ni baratoi ein cynlluniau terfynol
- Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto ar ddiwedd yr ymgynghoriad i ymateb i'r prif faterion a godwyd ac i esbonio ein cynlluniau terfynol ar gyfer y gangen
- Mae'r ymgynghoriad hwn yn unol a'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr Mae detholiad sy'n ymwneud ag Ymgynghori ar ddiwedd y llythyr hwn.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall y newidiadau y bwriadwn eu gwneud i Swyddfa Bost Y Rhyl. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni. Mae ein manylion cyswllt ar waelod y dudalen gyntaf.

Diolch ichi am ystyried ein hargymhelliad.

Yr eiddoch yn gywir

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**
**Rheolwraig Darpariaeth y Rhwydwaith**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

# Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Y Rhyl

| Y lleoliad presennol | Y lleoliad newydd arfaethedig |
|---|---|
| **Swyddfa Bost Y Rhyl**<br>**32-34 Y Stryd Fawr**<br>**Y Rhyl**<br>**LL18 1ET** | **Marchnad Fach Y Rhyl**<br>**11 Stryd Bodfor**<br>**Y Rhyl**<br>**LL18 1AS** |

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Llun-Gwen | 09:00 – 17:30 |
| Sad | 09:00 – 12:30 |
| Sul | Ar gau |

**Yr oriau agor arfaethedig**

| | |
|---|---|
| Llun–Gwen | 08:00 - 20:00 |
| Sad | 08:00 - 20:00 |
| Sul | 10:00 – 19:00 |

**Yn ystod y pandemig Coronafeirws mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor y gangen. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn www.postoffice.co.uk/branch finder**

**Cynhyrchion a Gwasanaethau**
Byddai gwasanaethau tebyg ar gael o hyd. Mae gan y gangen bresennol beiriant arian y tu allan â brand Swyddfa'r Post; fodd bynnag, ni fydd hwn yn cael ei drosglwyddo i'r adeilad newydd arfaethedig.

**Mannau gwasanaeth**
Byddai dau fan gwasanaeth cynllun-agored wrth gownter y siop. Cafodd nifer y mannau gwasanaeth eu seilio ar faint o fusnes sydd ar hyn o bryd a faint a ragwelir yn y dyfodol.

**Mynediad**
Ar hyn o bryd mae yna ddrws llydan a stepen tarmac wrth y fynedfa i'r adeilad arfaethedig. Fodd bynnag, byddai ramp parhaol ar gael. Y tu mewn, byddai dolen glyw a lle ar gyfer cadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Byddai'r gangen newydd arfaethedig tua 280 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir gwastad y rhan fwyaf o'r ffordd. Mae modd parcio am gyfnod penodol y tu allan i'r lleoliad newydd. Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn ôl ac ymlaen yn y cyffiniau. Mae gorsaf bysiau Y Rhyl tua 150 metr i ffwrdd o'r adeilad arfaethedig.

**Y Siop**
Siop gyfleustra

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol – er enghraifft mewn print mwy bras, sain neu braille ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun)**

| Gwasanaethau  sydd ar gael yn Swyddfa Bost Y Rhyl | | |
|---|---|---|
| **I gael gwybodaeth ynghylch cynhyrchion sydd ar gael ffoniwch 03457 223344. Gallwch gael manylion am werth uchaf trafodion drwy siarad â'r sawl sydd y pen arall i'r ffôn.** | | |
| | **Y gangen bresennol** | **Y gangen newydd** |
| **Post** | | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✔ | ✔ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✔ | ✔ |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post | ✔ | ✔ |
| Signed For | ✔ | ✔ |
| Signed Delivery | ✔ | ✔ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✔ | ✔ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✔ | ✔ |
| Parseli Express a chontract | ✔ | ✔ |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✔ | ✔ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Tracked a Signed) | ✔ | ✔ |
| Parseli rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✔ | ✔ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✔ | ✔ |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✔ | ✔ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✔ | ✔ |
| Local Collect | ✔ | ✔ |
| Drop & Go | ✔ | ✔ |
| **Codi arian, adneuon a thaliadau** | | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✔ | ✔ |
| Bancio personol a busnes: Y cyfan o ran codi arian, adneuon ac ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (cerdyn, cod bar neu â llaw). | ✔ | ✔ |
| Archebion Post | ✔ | ✔ |
| Moneygram | ✔ | ✔ |
| Rhoi newid | ✔ | ✔ |
| Talu biliau (cerdyn, cod bar neu â llaw) | ✔ | ✔ |
| Adlenwi allweddi | ✔ | ✔ |
| **Gyrru** | | |
| Treth cerbydau | ✔ | ✔ |
| **Teithio** | | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✔ | ✔ |
| Arian Teithio ar gais | ✔ | **Ewros/Doleri** |
| Atgyfeirio Yswiriant Teithio | ✖ | ✔ |
| Yswiriant Teithio ar gais | ✔ | ✖ |
| Gwirio ac Anfon Pasbort | ✔ | ✖ |
| | | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✔ | ✔ |
| **Talu â siec** | ✔ | ✔ |
| Mae cynhyrchion a nodwyd â ✖ ar gael yn Swyddfa Bost **Abergele**, 21 Stryd y Farchnad, Abergele, LL22 7AG | Oriau agor:<br>Llun – Gwen 09:00 – 17:30<br>Sad 09:00 – 12:30 | |

**<u>Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau  i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)</u>**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori -* postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

*Byddwn yn **<u>Ymgynghori</u>** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:*

- Cau cangen Swyddfa'r Post[1]  yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[2] er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol[3] Cyrff Eirioli Defnyddwyr  ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod  yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon;  cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:* Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y gŵyn).

**postofficeviews. co.uk.   comments@postoffice.co.uk   FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch:  03452 66 01 15   Ffôn Testun:   03457 22 33 55**

[1] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.
[2] Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
[3]  Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.
[4] Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn [3] a [4] uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod â diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.